YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LIII. AWST 1953 RHIF 8

Nodiadau'r Golygydd.

PARCH AT FYWYD.

BETH sy'n gwneud dyn yn ddyn? Beth sy'n gwneud un dyn yn well na dyn arall yn yr ystyr orau? Beth yw'r gallu sy'n dyrchafu dyn uwchlaw'r creadur? . . . Dyma ychydig o gwestiynau sy'n werth meddwl amdanynt.

Wel, beth sydd yn gwneud dyn yn ddyn—ei allu i resymu? ei allu i obeithio a myfyrio, ei fagwraeth, ei amgylchfyd, ynteu Beth? Y mae hawl gan bawb i'w ateb, ac yn sicr y mae hawl gan sant o ddyn fel Dr. Albert Schweitzer, gŵr nad oes nemor nam ar ei fywyd, gŵr llydan ei ddeall, gŵr cyflawn ei wasanaeth a helaeth ei garaid . . . yn sicr y mae hawl ganddo ef i'w ateb a hawl gofyn i ninnau wrando arno. A meddai'r gŵr hwn—"Calon y ddynoliaeth a bywyn ein bodolaeth fel dynion yw *ein parch at fywyd*". Dyna sy'n gwneud dyn yn ddyn—nid y meddwl doeth na'r synnwyr effro, ond y gallu i barchu popeth byw. Ac onid gwych o ddiffiniad yw hwn?

Y Dyn—y dyn mawr yw'r dyn sy'n parchu bywyd yn ei holl lefelau o'r gris isaf hyd at yr haen uchaf y gwyddom amdano; o symudiad byw y peth bach di-nôd hyd at symudiad mawreddog bywyd ar ei binaclau ysbrydol. Y mae'r hyn sy'n fyw yn santaidd i'r dyn mawr; y pethau sy'n prifio a thyfu, boed greadur, boed blentyn, boed ddyn, boed syniad, boed wareiddiad—os byw, perchwch ef!

Beth a roes i ni bethau gorau democratiaeth?—PARCH AT FYWYD! Betha roes i ni ryddid cymdeithasol a chrefyddol?—PARCH AT FYWYD. Beth a roes i ni syniad am hawliau dyn fel hawliau cydradd?—PARCH AT FYWYD. Dyma'r thema sy'n rhoi mawredd i grefyddau'r byd. Fe'i cewch ar hen furiau China mewn ysgrif; fe'i gwelwch ar feini nadd Babilon,

ar scrôl cyfreithiau'r Iddew ac ar bapyri'r Eifftiwr. Fe'i clywsom yng ngeiriau Socrates yr athronydd, fe'i gwelsom ym mywyd a gwasanaeth gwaredwyr fel Iesu ac ym mrwydro dewr rhyddhawyr dynion . . . *Parch at fywyd.*

Yr oedd gallu gwefreiddiol y gwŷr yma ynghlwm wrth eu tystiolaeth mai santaidd yw dyn byw, y meddwl byw a'r gydwybod fyw. Ac y mae gwareiddiad ar ei orau pan fo'n diogelu bywyd y plentyn o'r funud ei cenhedlir yn gell fach, fyw hyd oni dderfydd mewn henaint. Fe welir y syniad yn mynnu ei le mewn cyfraith . . .NA LADD, a meddai'r Iesu ar lefel uwch eto, "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr" ; hynny yw, y rheiny sy'n rhoi cyfle i fywyd a'r rhai sy'n gwrthod anharddu a difwyno bywyd.

Pregeth Stephen Fritchman.

Yr wyf yn sgrifennu hyn o nodiadau wedi darllen pregeth a bregethwyd gan un o'r Undodiaid dewraf yn America heddiw. Y mae'r gweinidog hwn yn dioddef erlid oherwydd ei safiad dewr yn erbyn y tueddiadau Macarthaidd yn ei wlad ac yn y byd heddiw. Y mae degau o'n cyd-ddynion heddiw, medd ef, yn byw mewn arswyd am ei bywyd ac am eu rhyddid i symud a llefaru . . . Y mae bleiddiaid ar led sy'n trefnu tranc yr anghenus ac yn dinistrio gobaith yr ifanc ac y mae'r bleiddiaid yma yn bygwth difetha bywyd ar bob llaw.

Mae'n wir fod ein bywyd ni yn ddigon tawel ar y cyfan, ym mha le felly mae'r arswyd yma'n cuddio ?

A gaf i gymryd enghraifft na fydd yn dolurio neb gobeithio, ond a fydd yn goleuo rhywun efallai. Beth wnaeth y gwŷr a wnaeth arian mawr o dlodi'r gweithiwr yng Nghymoedd y De ? Beth wnaeth y gwŷr a dorrodd greithiau glas ar wyneb dyn a wyneb daear yr ardaloedd yma ? Cododd balas yng Nghyfarthfa a lleoedd tebyg ; lluniodd harddwch o'i gwmpas ; cododd wal uchel a choed tal a chlwydi cryfion fel na welai ei lygaid yr olygfa a thrueni gwaith ei law. Daeth y coed tal yn Gyrten Haearn i guddio'r arswyd ; i ddofi pang cydwybod ac i arbed gweled y dinistr a daenwyd gan fywyd di-hidio.

Y mae rhai ohonoch a fu mewn rhyfel yn gwybod am ei anferthwch a'i fwtsheriaeth ond i lawer ohonom sydd wedi byw ymhell oddi wrtho, codwyd wal rhag i ni ei weled yn ei iawn liw. Soniwyd amdano fel peth parchus gan seneddwyr ; clodforwyd ei anrhydedd a'i ddewrder gan bapurau'r wlad : plannwyd coed hardd o'i gwmpas a dreif hyfryd tuag ato ac aethom i fyw mewn diogelwch tawel "yng Nghyfarthfa rhwng y coed".

Ond a gaf i ddweud yn blaen na allwn fyw yn y castell rhwng y coed am byth. Am ein bod yn difa ac yn dinistrio bywyd y mae'r difa yn sicr o gripio i fyny'r dreif rhyw dro. Megis y daeth marwolaeth i Gyfarthfa a'i droi yn amgueddfa i'r werin a ormesodd,

felly y daw ein difaterwch adref i gysgu atom ninnau. Os ydym yn derbyn teyrnas arswyd ar gyfer pobl eraill, fe ddaw'r deyrnas i lywodraethu arnom ninnau cyn hir iawn. Cafodd miloedd ei difa yng Nghorea yn ystod y rhyfel tair blynedd ; ac y mae paratoadau mawr am ddinistr mewn mannau eraill erbyn hyn. Fe fydd y rhyfel yn ddigon pell efallai oddi wrthych chwi a finnau, ond fe red y staen o'r bys i'r fraich ac o'r fraich at y corff.

Dyna beth ddigwyddodd yn America. Y mae hi wedi bod ddigon pell wrth y rhyfeloedd diweddar ond erbyn hyn y mae'r blas wedi cerdded adref. Nid oes undyn yno heb berygl cael ei gyhuddo a'i groesholi a'i erlid o'i waith ac ô'i wlad. Ac onid yw'r un peth yn wir amdanom ninnau i raddau llai. Aeth ein plant i orfoleddu mewn pethau arswydus mewn ffilm a chomic. Aeth y gyfraith yn sbort i heidiau o lofryddion ac anlladwyr . . . *y malldod yn dod i mewn drwy'r dreif.* Aeth y berthynas annwyl a santaidd rhwng gŵr a gwraig yn sbri odinebus, agored. Aeth yr America, a oedd yn dŵr i gydwybod ac yn ddinas noddfa i ffoadur dan erlid yn wlad lle llosgir llyfrau yn gyhoeddus ac yn wlad dienyddio di-enaid. Ie, *llosgi llyfrau*, meddyliwch am y peth ! Hwn oedd marc mawr yr Oesoedd Tywyll a hwn oedd camp fawr gŵyr fel Hitler, ac fe wyddom erbyn hyn beth sydd i ddilyn.

Y mae dyn yn mynd yn ôl i'w gadwyni a'i unig obaith yw adfer parch i fywyd fel ein ffydd ganolog ; parch i bopeth byw, boed syniad, boed lyfr, boed blentyn bach yr ydym yn paratoi ei fyd ar ei gyfer.

Dyddiadur Gwilym Marles

1850.

1. Iau. 6. Daeth y newydd heno fod Pegi'r Llan i wedi chael yn farw yn yr allt fawr gyneu fach !

2. Gwe. 5½ . . . fawr o awydd at ddarllen geni nawr . . . wrth yr Anianyddiaeth Ysgrythyrol yn baraus . . . 11.

3. Sad . . . taclu i fynd tua'r Crossin—6—cwrdd paratoad yno 7, dywedais dipyn ar 1 Thes.5.22—ni fuais yma o'r blaen—pobl garedig debygaf—mynd heno efo Mr. Powell i dŷ un Anthony Howells i letya heno . . . 12.

4. Sab. 7. Cysgu neithiwr gyda Mr. Powell . . . cyflawnais y ddyletswydd deuluaidd—taclu a mynd tua'r capel—10—cwrdd gweddi yno cyn y llall—dech. y cwrdd a phregethu yn lled hwylus . .

5. Cysgu ar lan Aman heno—ddim erioed o'r blaen . . . es i gwrdd Mr. Powell, ces 2s.

6. Maw. 5½ . . . —Isaac Lloyd yma—braidd heb ddod i mewn i'r study yn iawn rol y daith yna—dwyf ddim tramper of y modd—nag wyf.

8. Iau. Codi 6, ymolchi, cribo—glanhau danedd . . . yna tua Gelligrin yn darllen llythyr o America i mamgu . . .

10. Sad. 5½. gl. dan . . . yna tua cwrdd Fforest. Un George Philips wedi addo bod yno'n preg. ddaeth ddim dywedais i dipyn ar I Thes. 5. 22. . . . ewythr yn biff o hyd. . . . O am ochelyd meddwl am olud bydol.

13. 5.25 . . . 8 (nos) yna darllen wrth y tan. . . . Hannah Cnwc yma heddyw eto —mae hi'n fynych yma—ddaw hi ddim i aros gobeithio . . . mae hi'n dyn o hyd.

14 . . . O beth wneir yn y cwrdd misol heddyw. O pared i'r nefoedd i ryw beth er daiono gael ei wneud. es iddo ½ wedi 11 — dim o Daniel na Mr Powell ——— O beth a wnaf—dim ond bod yn ffyddlon wrth fy nghel. (fyddyd).

15 . . . cwrdd yn Rhydgoch. parcel ynghyd—yn wir nid yw crefydd yn ddigon pwysig gyda llawer ohonom . . . tyn hynod o hyd —ewythr yn gweithio'n galed.

16. 20 cyn 6 . . . Taylor Tyrhos yma heddyw o 9 —4 un ffraeth od yw ef—ei bresenoldeb meddwl sy'n ei helpio . . . 10.

17 . . . O am sobrwydd wrth drafod pethau pwysig tragwyddoldeb.

19 . . . daeth gweithiwr newydd yma tua 2 un byr o gorph— ieuanc—Dafydd . . . maent yn medi bron ar bob tu yma.

20. Maw . . . tua Llanybydder . . . hyd y turnpike y des nol . . . O am ddyfalwch i ddysgu . . . 10.

21 . . . O am fod yn ddiwyd gyda'r gair.

23 . . . rwy'n rhoi walk fer nawr bob bore 'rol hyn gan ddarllen rhan o'r Ymofynwr pryderus er meithrin teimladau crefyddol—gwneud ffynon yn yr ardd . . .

24. Codi 6 . . . 3 yna tua'r cwrdd yn Gwern. 4. Daeth Mr. Powell yma gofynodd a gasglai yr eglwys attaf—ni nacasant lled foddhaol, adref. . . . O am lywodraethu fy hun a diolch am argoel gwan y cai ysgol—rhagor eto . . . 11.

25. Sab. . . . Mr. P. yn preg. . . . Bedyddiai fab John Cwmwrdu es i Dancod ½ dydd i Abernant. 3 preg ar Col 2.6. ces hwyl lled dda i Lanrhyd rôl cwrdd—i cwrdd y Braichfa. . . . Cadwodd Mr. Puw. yr egl. nol ar y casglu wedwyd dim croes.

29 . . . Cyhoeddwyd fi heno i fod yn Gelligrin Sul nesaf. O am fod yn ddiwyd a pheidio a phorthi blys y cnawd— gelyn enbyd.

30 . . . O am ochelyd ysgafnder gwilio yn gaeth ar y meddwl rhag gadael iddo grwydro yn ddilywodraeth ar ol pethau gwag y byd hwn.

31 . . . rhwymo yn Gelligrin. . . . O am gadw'r meddwl gartref yn awr.

(*I barhau*).

Ai'r Tonic Sol-ffa neu ynteu'r Hen Nodiant sydd orau?

Gan J. Islan Jones.

Bu llawer o siarad ac o 'sgrifennu ar y pwnc hwn yn ddiweddar, rhai yn canmol rhagoriaethau'r naill ac eraill yn canmol rhagoriaethau'r llall. Yn wir, haerodd un ysgrifennwr mai'r Hen Nodiant yw'r unig ffordd i 'sgrifennu cerddoriaeth sydd yn deilwng o barch cerddorion.

Dywedodd rhai beirniaid, gyda gormod o wirionedd, mai isel yw safon cerddoriaeth yng Nghymru heddiw. Dywedasant ymhellach, heb ddim gwirionedd yn y gosodiad, mai Nodiant y Tonic Sol-ffa sydd yn atebol am hynny. Fel nodiant, y mae'r Tonic Sol-ffa mor berffaith bob mymryn a'r Hen Nodiant, ac yn llawer haws i gerddorion lleisiol, er bod yr Hen Nodiant o bosibl yn well i gerddorion offerynnol. Un fantais fawr i'r Sol-ffawr yw, mai'r un yw'r raddfa iddo ef ymhob cyweirnod fel ei gilydd : ond rhaid i'r canwr o'r Hen Nodiant ddysgu graddfa ar gyfer pob cyweirnod—sef deuddeg : hefyd, o'r ddau, y mae'n haws dysgu amseru'n gywir yn y Sol-ffa nag yn yr Hen Nodiant.

Dynion nad ydynt erioed wedi dysgu Nodiant y Sol-ffa, ac oherwydd hynny yn analluog i'w werthfawrogi, sydd yn ei gendemnio. Am fod Solffawyr yn dysgu eu gwaith yn gyflymach, a'u bod yn fwy sicr ar eu nodau, fe droswyd rhannau lleisiol "Breuddwyd Gerontius", ac "Olaf Frenin", Elgar, o'r Hen Nodiant i'r Tonic gan Elgar ei hun, neu rywun arall drosto, a gwnaeth Beecham yr un peth a gweithiau Delius ("Gyr y Môr" ; "Offeren Bywyd" a.y.b.) at wasanaeth ei gôr.

Na, nid Nodiant y Sol-ffa sydd yn gyfrifol am waelder canu Cymru, ond y ffaith bod cymaint o bobl heb ganddynt gymaint a "chrap ar y nodau" yn mynnu canu pan ddont ar dro siawns i gwrdd neu gymanfa, heb drafferthu mynd i un ysgol gân. Prynant (neu fenthyca) rhaglen ac anthem fore'r cyfarfod, ac yna, gollwng arnynt a'u holl egni, nes bo'r donyddiaeth yn yfflon, a'r ychydig gerddorion a fydd yno'n gwrido yn gynddeiriog gan gywilydd.

Clywir digonedd o donyddiaeth ffradach yn y canu cynulleidfaol a ddarlledir gan y B.B.C. ar nawnau Sul ; ond teg yw dweud bod peth canu da yn gymysg a'r gwael. Yn anffodus bernir ein cerddoriaeth wrth y gwael yn hytrach nag wrth y gorau, gan wrandawyr cyffredin—am fod mwy ohono. Cantorion heb un nodiant yw'r drwg ! Y mae nifer fawr o'r rhai a gymer arnynt eu hunain eu bod yn gerddorion, na fedrant ganu'r Raddfa Ddiatonaidd yn gywir : clywir eu lleisiau yn hofran o amgylch y nodau, ond heb ddisgyn yn

gywir ar un ohonynt ; ac y mae rhai a fu unwaith yn gantorion y gellid ymddibynnu ar gywirdeb eu canu, drwy hir esgeuluso'r ddawn, wedi ei cholli, ac yn dueddol i ganu allan o diwn pan roddant gynnig arni.

Y mae talent i ganu yn beth cyffredin yng Nghymru, ond fe'i hesgeulusir yn dost. Peth anoeth fyddai disgwyl ar bob gwerinwr ifanc sydd a thipyn o dalent gerddorol ganddo, i dreulio blynyddoedd i ddysgu'r Hen Nodiant, onibai fod ganddo amcan proffesyddol mewn golwg ; ond fe all pob bachgen a geneth sydd a dawn canu ynddynt, trwy roi ychydig o'u hamser hamdden, yn gyson, i ddysgu nodiant y Sol-ffa, ddod mewn ychydig amser i ganu tonau, rhanganau, ac anthemau syml ar ' yr olwg gyntaf.' Y mae'r pleser o ganu yn dyblu ar ôl dysgu darllen cerddoriaeth. Y mae canu gyda'r deall a'r ysbryd yn ddyrchafiad ysbrydol i'r cerddor ei hun, ac i'r sawl a wrendy arno.

Rhaid addef nad yw cyhoeddwyr miwsig wedi dangos cymaint o barch i'r Sol-ffa ag i'r Hen Nodiant. Ni welir byth gyfeiliant Anthem ar gopïau'r Tonic Sol-ffa. Y mae hyn yn anfantais fawr i'r Solffawr, yn enwedig i arweinydd côr, a ddylai wybod y cyfeiliant yn ogystal a'r rhannau lleisiol. Hefyd, peth digon anniddorol i'r cantorion, ar ôl dod i ddiwedd un symudiad, yw gweld rhybudd moel megis, "naw mesur offerynnol". Pa ddewin a fedr gyfrif y mesurau heb y miwsig, na gwybod pa sawl curiad sydd i'r mesur ! Y syniad a rydd peth o'r fath yw, nad yw'r Tonic Sol-ffa yn werth y gost o argraffu'r miwsig yn gyflawn ynddo.

Efallai mai ychydig o'n darllenwyr a wyr am yr ymgais a wnaed dros bedwar ugain mlynedd yn ôl i uno'r Hen Nodiant a'r Tonic Sol-ffa a'i gilydd, trwy roi nodau'r Sol-ffa tumewn i nodau'r Hen Nodiant. Wrth gwrs argreffid y nodau ar linellau'r erwydd neu rhyngddynt fel yn yr Hen Nodiant, a'r allwedd briodol ar ddechrau pob erwydd.

Ni fuasai lle i 'sgrifennu'r nodau cromalaidd fel *de*, *ma*, *fe se* a *ta* tumewn i nodau'r Hen Nodiant, felly d o fewn y nodyn a *sharp* o'i flaen a wnâi *de*, a'r un fath a'r nodau cromalaidd eraill. Y mae'n amlwg mai o fewn terfynau cyfyng iawn yn unig y gellid defnyddio'r Nodiant dwbl hwnnw.

Y mae gennyf lyfr yn cynnwys yn agos i bum cant o donau cynulleidfaol wedi ei argraffu'n glir ac yn ddestlus iawn yn y nodiant dwbl y soniaf amdano. Ei deitl yw, *The Union Sacred Tune-book*. Yr argraffydd a'r cyhoeddwr oedd Wm. Hamilton, Music Printer and Publisher, 33, Bath Street, Glasgow. Printiwyd y llyfr yn 1873. Yn ddiau gwariodd y cyhoeddwr swm fawr o arian i wneud teip arbennig at brintio'r Nodiant hwn, gobeithio iddo gael ei ddigolledu. Ni wn i a fu'r Nodiant Dwbl yn llwyddiant ai naddo ; mae'n bosibl iddo fod yn ddefnyddiol i rai yn dechrau dysgu cerddoriaeth. Ni chlywais i erioed sôn amdano hyd nes rhoddodd

un o hen gantorion Capel Hindley i mi gopi o'r *Union Sacred Tune-book*. Nid yw'r nodau mewn print brâs o gwbl, eto mae'r ddau nodiant yn hollol glir—y Tonic mewn llythyren wen o fewn y nodau duon, a llythyren ddu yn y nodau gwynion. Clywais yn ddiweddar am nodiant newydd sydd, yn ôl yr hanes, yn ennill poblogrwydd yn Holand a mannau eraill ar y Cyfandir ; gelwir ef "Klavarscribo". Ni wn ddim pellach amdano ; gobeithio bod mwy o fiwsig ynddo nag sydd yn ei enw.

Nid eisiau Nodiant newydd sydd arnom, ond eisiau ymroddiad onest a chydwybodol i ganu'r nodiant sydd gennym, yn gywir a chwaethus. A siarad yn ffigurol, y mae eisiau ail-eni llawer o'n cerddorion a'u cadw yn y crud nes byddont yn gallu canu'r Raddfa Ddiatonyddol yn gywir, ac yna rhoddi cymorth a chennad iddynt ganu'r Tonic Sol-ffa.

Efallai y bydd rhywun a thalcen uchel iawn ganddo yn barod i ddweud wrthyf, "Yr ydych chwi o leiaf chwarter canrif ar ôl eich amser. Y mae pob cerddor sydd a mymryn o huhan-barch ganddo wedi taflu'r Raddfa Ddiatonaidd i gronfa pob ysbwriel ers llawer dydd. Nid yw cerddorion yn awr yn sôn am Donydd, a Llywydd, am Ganolydd, Arlywydd nac hyd yn oed am Gyweirnod. Ni sonnir mwyach am effeithiau gwahanol nodau'r Raddfa, am fod effaith pob nodyn yn hollol yr un fath a'i gilydd. Nid wyth ond saith nodyn sydd yn y raddfa Atonyddol—Graddfa'r dyfodol mewn miwsig, a'r pellter seiniol yn hollol yr un faint rhwng pob nodyn a'i gilydd". Dyna athrawiaeth go ryfedd i rai ohonom, ond dyna esboniad o'r dieithrwch brawychus o amhersain a glywir wrth wrando ar rai o symffonïau newydd sbon y B.B.C.—gweithiau disgyblion Schönberg, Scriabin a cherddorion y stwr mawr yn y wlad hon. Cyn gwneud cyfiawnder a gwaith Schönberg, rhaid cael Cerddorfa yn cynnwys ymhlith offerynnau eraill chwe *kettle-drum*, *bass drum*, *tenor drum*, *side-drums*, *cymbals*, *tam-tam*, *rattle*, *xylophone*, clychau a nifer o gadwyni heyrn.

Dyna fydd cerddoriaeth y dyfodol yn ôl proffwydi cerdd y dydd heddiw. Os felly, credaf y bydd y gwrandawyr ar ôl clywed deg drwm neu ychwaneg yn drymu am awr o amser yn barod i ganu "O mor drwm yr ydym ni". Dywedodd rhywun fod Wagner wedi disbyddu holl gordiau posibl miwsig : gallem feddwl bod cyfansoddwyr modern ar frys gwyllt wrthi'n disbyddu holl anghydgordiau posibl byd miwsig ! Beth wnant wedyn ? I mi nid miwsig yw sŵn heb felodi na pherseinedd na chyweirnod pendant yn perthyn iddo.

Cwrdd Blynyddol Urdd y Benywod yn Llundain.

Gan G. Evans, Brynllefrith.

Cychwynodd tair ohonom a'n wynebau tua'r Brifddinas yn gynnar ar fore o Ebrill. Wrth deithio drwy'r wlad gwelsom olygfeydd hyfryd bob cam o'r daith. Hawdd fyddai canu gydag R.J.J. ar fore fel hwn—

"Mae'r byd imi yn hyfryd
A llawn o nefol swyn"

heb anghofio T.O.W. yntau, a ddywedodd fod "Cariad wrth galon y byd".

Trannoeth (dydd Iau) rhoesom ein dydd yn gyfan i'r cyrddau. Buom mewn dau wasanaeth yn y bore ac aethom yn brydlon erbyn dau i Gwrdd y Benywod. Hwn oedd y pumed cwrdd blynyddol a deugain, a chymerwyd y rhan ddefosiynol gan Mrs. Mitchell, B.A. a hi hefyd oedd yn y gadair. Croesawyd ymwelwyr tramor. Datganodd gwraig o Awstralia ei llawenydd o fod yng nghwmni cymaint o Undodiaid a hithau gartref gan milltir oddi wrth y capel Undodaidd nesaf. Pan ei clywais, meddyliais a ydym ni sydd a chapel Undodaidd wrth y drws yn ei iawn werthfawrogi. Wrth roi'r adroddiad ariannol pwysleisiodd y Dr. Baily ar i bob cangen anfon eu tanysgrifiadau yn brydlon am fod y costiau wedi cynyddu.

Dilynwyd hi gan Mrs. Sokell, trysoryddes yr 'India Fund.' Soniodd am waith da Margaret Barr, y genhades, a'r angen mawr am gymorth yno. Yna galwyd ar drysoryddes y Gronfa Goffadwriaethol (Memorial Fund), ac fe eglurodd fod llyfr hardd wedi ei roddi'n anrheg ac arno gellid ysgrifennu enwau'r rheiny a fu'n ffyddlon gyda'r Urdd. Dyma ddull da i gadw enwau rhai o'n ffyddloniaid gynt yn fyw ac ar glawr. Gwahoddir enwau o'r gwahanol ganghennau.

Cyn ymddeol o'r gadair, diolchodd Mrs. Mitchell am y croeso cynnes a gafodd ymhob man a'r cynorthwy parod o bob cyfeiriad. Yr oedd wedi ymweled â phob rhanbarth o'r Urdd ym Mhrydain, ac wedi gohebu â phob cangen dros y môr. Yna croesawodd y llywyddes newydd, y Parch. M. Constance Harries, a gwisgodd yr "wddf-dorch aur" am ei gwddf fel arwydd o'i swydd. Dywedodd hithau hefyd ei bod yn bwriadu ymweled â phob rhanbarth a gobeithio y cawn ni yn Sir Aberteifi gyfle i'w chroesawu. Bu Miss Harries yn weinidog yn Highland Place, ond y mae wedi ymddiswyddo o'r weinidogaeth yn awr.

Ar ôl cyhoeddi y dair aelod newydd o'r Bwrdd Canolog, sef Mrs. Haigh, Lerpwl ; Mrs. Penwarden, Highgate a Mrs. J. R.

James, Aberdâr yr oeddym i gyd yn falch fod un Cymraes wedi llwyddo. Cafwyd araith bwrpasol iawn gan Mrs. Tudor, B.A. a'i thestun oedd, "Cyfrifoldeb rhanbarthau'r Urdd i'r enwad", a phwysleisiodd ar y penawdau canlynol, "Adfer parch o'r tu mewn i'n eglwysi ; croesawu ymwelwyr â'n eglwysi'n gynnes ; bod llawer yn aelodau o'r Urdd heb fod yn aelodau o'r Eglwys ; Ceisio darbwyllo rhieni i godi eu plant yn y Ffydd Undodaidd a chyfrifoldeb a dyletswydd gyda meddyliau agored ond nid meddyliau gwag".

Am fod yr amser yn brin, tair a siaradodd yn y Gynhadledd, a'r olaf a apeliodd fwyaf ataf. Dywedodd ei bod yn trefnu hyd yn oed gweithio cinio ymlaen llaw ddydd Sadwrn ac nad oedd yn colli un gwasanaeth ar y Sul. Yr oedd ei mab hynaf a'i holl fryd ar y weinidogaeth ac yr oedd un o'i diaconiaid wedi dweud wrthi mai ei esiampl dda hi oedd yn gyfrifol. Credaf fod esiampl dda fel hon yn werth i bawb ohonom ei efelychu.

Diweddwyd drwy ganu emyn, a gobeithio yr â Urdd y Benywod ac Undodiaeth ymlaen yn ysbryd geiriau pennill cyntaf yr emyn hwnnw—

Christian, rise and act thy creed,
Let thy prayer be in thy deed ;
Seek the right, perform the true—
Raise thy work and life anew.

DYMUNIADAU.

Dymunwn helpu rhywun ar ddyrys daith y llawr
A'i dywys o'i drafferthion a'i wae ar dywell awr.

Dymunwn estyn cymorth i ryw ffaeledig un
Ar anial lwybrau'r ddaear a deithia wrtho'i hun.

Dymunwn wneud rhyw galon yn ysgafn ac yn llon
A chodi trem y llwfryn ymhell uwchlaw y don.

Dymunwn achub rhywun o afael pechod cas
A helpu pob rhyw adyn i haeddu mwy o ras.

Dymunwn ddysgu rhywun i rodio'r llwybr cul
I adael ffyrdd anfoesol a pharchu deddfau'r Sul.

Dymunwn godi golwg rhyw druan tua'r nen
A'i argyhoeddi'n wylaidd am Wynfa fry uwchben.

Dymunwn lonni rhywun a geiriau neu a chân
Ac annog ei ymdrechion o blaid pob gweithred lân.

Dymunwn argyhoeddi rhyw un o'i lwybrau ffôl
A'i ddwyn yn edifarus o'i wirion ffyrdd yn ôl.

Dymunwn gadw'r ieuainc rhag drygau o bob rhyw
A'u tywys at ddaioni a chredu yn eu Duw.

Pe doi y dymuniadau yn ffeithiau ar fy nhaith
Cawn deimlo wrth fynd adref nad ofer fu fy ngwaith.

Llanbedr-Pont-Steffan. A. J. Rees.

Marwgofion.

Mehefin 5ed, DAVID JONES, "Cottage", Horeb, gynt o Gwmeudwy—yn 74 oed. Ychydig ddyddiau cyn ei farw symudwyd ef i'r Ysbyty yn Aberystwyth, ond ni fu iddo yno wellhâd. Yr oedd yn adnabyddus i lawer ardal. Yn Nhalgarreg a Phontshân adnabyddid ef fel ' Dafi Pantybryn a Darren-fach'. Gŵr hoffus gan bawb ; cymdogol ei ysbryd a pharod ei gymwynas, ac o galon garedig. Tad ydoedd i'r diweddar Barch. E. Gruffydd-Jones, Cribyn a Chapel-y-Groes. Collodd ei briod gyntaf flynyddoedd yn ôl, ac ail ymbriododdd a chodi teulu newydd. Daearwyd ei weddillion ym mynwent Pantydefaid, Mehefin 9fed, pryd y daeth torf o hen gyfeillion i dalu'r gymwynas olaf iddo. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. Marles Thomas ac Aubrey Martin a Miss A. M. Evans yn cyfeilio. Cydymdeimlwn a'r weddw ynghyd â'r holl blant yn eu hiraeth.

Mehefin 7 bu farw Mrs. MARY WILLIAMS yn nhŷ ei nith yn Llwynfedw, Llanybydder, yn 71 oed, ar ôl hir gystudd. Yr oedd yn un o deulu Tyngrug-isaf, Llanwenog a fu yn amlwg gyda sefydlu'r achos yng Nghapel-y-Cwm a'i gynnal, a hithau er wedi byw yn hir yng nghymdogaeth Cross Hands, Llanelli, a barodd hyd y diwedd yn ei diddordeb a'i help. Y dydd Mercher dilynol daearwyd y rhan farwol ohoni ym mynwent Capel-y-Cwm, Cwmsychbant a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. S. Morgan, Ficer Llanwenog a S. E. Bowen. Cydymdeimlir â'i chwaer, Mrs. Thomas, Castelldu a'r perthynasau i gyd yn eu galar.

Mehefin 25 bu farw BENJAMIN WALTER THOMAS, Cledlyn Side, Cwrtnewydd yn 65 oed. Un gwan fu yn ei iechyd drwy ei oes, ac yn herwydd hynny yn analluog i ddilyn galwedigaeth. Ymddiddorai mewn darllen, yn

enwedig ei Feibl a'r YMOFYNNYDD. Hoffai ymddiddan am yr ysgol Sul a'r Capel, lle y rhoddodd wasanaeth canmoladwy. Gwasanaethodd hefyd ar Gyngor y Plwy, yn gynghorwr a Chadeirydd. Mab ydoedd i'r diweddar D. L. Thomas, ysgolfeistr Llanybydder, ac am y 32 mlynedd diwethaf cartrefodd yn gysurus iawn gyda'i chwaer yn y Cwrtnewydd. Cydymdeimlir â hi yn ei hiraeth a'i galar. Y dydd Sadwrn dilynol, yn ei angladd yn Aberduar, gwasanaethwyd gan y Parchn. G. Noakes, Llanbedr ; I. Davies, Seion, Cwrtnewydd ; W. H. Davies, Aberduar ac S. E. Bowen.

Newyddion yr Enwad

PANTDEFAID.—Y mae Sadwrn, Mai 23ain yn ddydd i'w hir gofio gan gyfeillion yr achos—dydd mawr y Wledd Dê flynyddol. Eleni eto ni fu prinder mewn unrhyw gyfeiriad—y byrddau yn llwythog ; y croeso yn un brwd, a hwyl ar bawb a phopeth. Pa ryfedd hynny oblegid dyna'r arfer gyda Mrs. Evans, Winllan-fach a'i merch, Mrs. Hannah Jones, Cletwr Arms. Hwy eleni a roddodd y wledd, a diolch iddynt am y gymwynas hael. Tystia'r plant na chawsant y fath "Sandwiches" yn eu byw, a barn pawb oedd inni gael y gorau. Yn union ar ôl y tê, trefnwyd Mabolgampau i'r plant, ac anrhegion a melysion yn roddedig gan Mr. James Evans, Rhydymaengwyn a Mr. D. O. Jones, Pontwely. Yn yr hwyr cafwyd cyngerdd o ganu ac adrodd gan blant yr ysgol Sul, dan arweiniad y Gweinidog. Hawdd ydoedd diolch mewn cynghanedd am fod cymaint hwyl ar y wledd. Talwyd y diolchiadau arferol gan Mr. Evan Evans, Hafod Iwan a Mrs. Overall.

BEDYDD.—Yn y Graig, bore Sul, Gorffennaf 5ed, MARY ANN, geneth fechan Mr. a Mrs. Inver Davies, Gwardafolog. "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi".

LLONGYFARCHION.—Llongyfarchwn Miss Jane Lewis, S.R.N., S.C.M., merch Mr. a Mrs. T. E. Lewis, Penlan, ar ennill ohoni Dystysgrif y Frenhines mewn nyrsio. "Dringed i gadair angel".

YSGOLION SUL.—Yn herwydd anhawsterau anorfod rhaid fydd gohirio pasiant yr ysgolion Sul ar "Hanes Undodiaeth" hyd y flwyddyn nesaf. Taer obeithir y ceir cydweithrediad yr holl blant a'r bobl ieuainc gyda'r gwaith o baratoi.

"YR YMOFYNNYDD".—Ceir rhifyn o lai y tro hwn gan fod pedair tudalen dros ben yn y rhifyn diwethaf.

GRAIG, LLANDYSUL.—Cynhaliwyd "Gwasanaeth Ymgysegru" gan aelodau Urdd y Benywod ar nos Sul, Mehefin 28ain. Cafwyd anerchiad diddorol ar "Swyddogaeth yr Emyn" gan Mrs. Lewis, Tŷ'r Ysgol, Cwrtnewydd. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Mrs. John Jones, Troedrhiw ; Mrs. Davies, Penlonwen ; Misses S. A. Jones, Well St. ; Joan Owen, Jessie Evans, Kings Head ; Dilys Davies a Beryl Jones, 1, Wind Street a Sally Davies, Gwyon Castle. Cyfeilwyd ar yr offeryn gan Mrs. J. Park Davies. Talwyd diolch i Mrs. Lewis am ei hanerchiad gan Mrs. Marles Thomas.

Ar nos Sul, Gorffennaf 5ed, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i aelodau cwmni'r "Guides" yn Llandysul, gwasanaeth ymgysegru ei Baner Newydd. Traddodwyd anerchiad bwrpasol gan y Gweinidog. Credai pawb i'r gwasanaeth hwn gyrraedd uchelfannau mawl ac addoliad.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

CYFARFODYDD BLYNYDDOL

Cynhelir yng

Nghapel-y-Groes

AWST 18 a 19

Nos Fawrth yr 18ed am 7 o'r gloch—
Gwasanaethir gan y Parchedigion J. Marles Thomas, M.A. a Lewis Williams.

Dydd Mercher am 10.30 a.m.—Pwyllgor y Gymdeithas.

2 p.m. Hanes yr Achos yng Nghapel-y-Groes : Mrs. Jenkins, Blaenwaunganol a'r Parch. T. Oswald Williams, M.A.

6.30 p.m. Gwasanaeth. Pregethir gan y Parch. D. Jacob Davies, B.A. a'r Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.

Croeso brwd i bawb.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.